

Sesiwn 3 – Ar gyfer pob math o wastraff, esboniwch:

1. O ble mae'n dod (deillio)
2. Esboniwch beth sy'n achosi cynnydd mewn cynhyrchu
3. Esboniwch beth sy'n achosi gostyngiad yn faint sy'n cael ei gynhyrchu

Gwastraff	Yn deillio o	Cynnydd	Gostyngiad
Tail buarth	Da byw, gan gynnwys deunydd gorwedd. Cynnwys deunydd sych tua 25%	Maint y da byw, y dŵr glaw sy'n mynd i mewn i'r system, cyfnod dan do	Gwasgaru tail buarth ar y cae Biodreulydd (biodigester) Storfa â tho
Slyri	Gwartheg mewn ciwbiclau yn bennaf Cynnwys deunydd sych tua 5%	Maint y da byw, y dŵr glaw sy'n mynd i mewn i'r system, cyfnod dan do	Gwasgaru slyri ar y cae Biodreulydd (biodigester) Storfa â tho
Deunydd lapio silwair	Silwair mewn byrnau	Mwy o dda byw = angen mwy o fyrnau	Bwyd arall h.y. claddfa silwair Ailgylchu plastig
Plastig	Deunydd lapio silwair, cynwysyddion ar gyfer: meddyginiaethau, powdr llyngyr, mwynau, chwistrellau, cemegion parlwr godro. Bagiau gwrtait, bagiau bwyd.	Po fwyaf o dda byw sydd = angen mwy o gynnyrch	Ailgylchu Prynu swmp (bulk) a storio llawer o ddeunydd (h.y. bydd prynu swmp o fwyd yn gofyn am lwyth lori, a'i storio mewn bin bwyd, fel bod llai o fagiau plastig)
Olew	Olew tractor gwastraff	Mwy o beiriannau	Rhoi gwasanaeth effeithiol i beiriannau Aildefnyddio er mwyn peintio'r offer
Tanwydd	Tanwydd ddim yn cael ei gadw mewn cynhwysydd sydd ddim yn gollwng. Dylai'r cynhwysydd fod wedi'i fyndio.	Storfa danwydd heb ei byndio'n briodol	Storio tanwydd yn effeithlon

Meddyginiaethau	Meddyginiaethau neu bowdr llyngyr heb eu defnyddio	Mwy o dda byw Prynu gormod	Defnyddio meddyginiaethau'n fwy effeithlon h.y. dim triniaethau cyffredinol, rhaid trin achosion penodol, defnyddio brechlynnau i atal yn hytrach na gwrthfotigau
Chwistrellau	Chwynladdwyr / plaladdwyr / ffwngladdwyr heb eu defnyddio. Hefyd mae'n ystyried gwrtaithe wedi'i wastraffu sydd mewn dŵr ffo ar ôl i ormod gael ei wasgaru.	Gwasgaru yn ystod amodau gwlyb, lle byddai llawer o chwistrell yn trwytholchi i gyrsiau dŵr, a chael ei wastraffu	Defnyddio GPS i osgoi cael maethynnau'n trwytholchi
Paledau	Paledau'n cael eu defnyddio o dan fagiau bwyd	Prynu llawer o archebion bach yn hytrach na phrynu swmp mawr	Ailgylchu neu aildefnyddio i'w storio ar y fferm
Teiars	Peiriannau/cerbydau		Eu gwaredu mewn garej leol neu eu haildefnyddio i ddiogelu silwair ar y fferm drwy eu rhoi ar fynau mawr neu ar gloddfa silwair o dan orchudd
Gwellt	Naill ai: gwellt heb ei ddefnyddio, sofr yn y tir neu ddeunydd gorwedd gwastraff	Gwellt gorwedd wedi'i wastraffu oherwydd cadw da byw mewn amodau gwlyb	Ei ddefnyddio fel gwrtaithe naill ai drwy ei adael i bydru mewn storfa addas neu ei adael yn y tir i bydru fel sofr
Silwair	Silwair heb ei ddefnyddio neu silwair wedi'i halogi ac sy'n anaddas i'w roi fel bwyd	Silwair gwastraff	Gwella effeithiolrwydd y cynhyrchu silwair
Elifion Silwair	Elifion yn rhedeg allan o bydewau silwair ar ôl ei gynaeafu	Cynaeafu silwair pan mae'n rhy wlyb	Trin silwair yn fwy fel ei fod yn sychu'n well

			Gosod system gasglu o gwmpas gwefus y pydew silwair i'w ddraenio tua'r slyri
Golchion Parlwr Godro	Wrth olchi'r parlwr ar ôl godro	Golchi'n gonfensiynol gan ddefnyddio dŵr o'r prif gyflenwad	Golch llifogydd Casglu dŵr glaw i olchi'r parlwr Defnyddio dŵr o system oeri
Batris	Peiriannau	Mae'r rhan fwyaf o beiriannau'n gallu cymryd batris aml dro (reusable). Mwy o dractorau=mwy o fatris.	Gweithredu peiriannau'n well, ac yn fwy effeithlon
Stoc drig	Anifeiliaid sy'n marw ar y fferm (nid yw'n cynnwys anifeiliaid sy'n mynd i'r lladd-dy)	Clefyd yn torri allan ar fferm ac ati	Rhaid i chi waredu stoc drig drwy gasglwr stoc drig trwyddedig Hefyd lleihau hyn drwy weithredu cynllun iechyd yn effeithiol
Nodwyddau	Nodwyddau ar ôl eu defnyddio mewn da byw	Po fwyaf o stoc sydd i'w brechu, mwyaf o nodwyddau fyddai ei angen a mwyaf o gynnyrch.	Defnyddio nodwyddau dur ac osgoi rhai untro (disposable).
Gwrtaith	Gwrtaith wedi'i storio cyn ei ddefnyddio, ond hefyd mae'n ystyried gwrtaith wedi'i wastraffu sydd mewn dŵr ffo ar ôl i ormod gael ei wasgaru	Dŵr ffo ar ôl glaw Cynyddu risg llygredd. Os nad yw'r peiriant wedi'i raddnodi (calibrated) yn gywir ac yn gwasgaru gormod	Graddnodi peiriannau gwasgaru'n flynyddol. Gwirio'r tywydd cyn gwasgaru. Defnyddio GPS ar dractorau newydd
Metel	Mae'n cynnwys metel sgrap fel hen gatiâu, peiriannau heb eu defnyddio, rhannau peiriannau, hen	Peiriannau heb eu defnyddio, storio peiriannau'r tu allan yn ystod y gaeaf, heb eu cynnal a'u cadw	Gwerthu i gasglwr sgrap trwyddedig

	gafnau, porthwyr (feeders) ac ati		
Gwydr	Poteli meddyginiaeth, fffenestri adeiladau neu beiriannau wedi'u torri	Defnyddio plastig neu wydr wedi'i atgyfnerthu lle mae'n briodol	Ailgylchu